**YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 5) (CYMRU) (DIWYGIO) 2021**

**Pwynt craffu technegol 1:** *gwaith drafftio diffygiol yn rheoliad newydd 16(4)(a) o'r prif Reoliadau*

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am y mater. Dylai'r geiriau "and by Part II of the Fire Precautions (Workplace) Regulations 1997" gael eu hepgor o destun rheoliad 16(4)(a) o'r prif Reoliadau. Eir i'r afael â'r gwall ar y cyfle cyntaf posibl.

**Pwynt craffu ar rinweddau 1:** *cyfeiriad anghywir at Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn y Memorandwm Esboniadol*

Mae'r cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn anghywir, a bwriadwyd iddo gyfeirio at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gywir yn y memoranda esboniadol i unrhyw reoliadau diwygio pellach.